GENERATION NEW ERA

A STUDY OF CHILDREN BORN IN THE 2020s

Ipsos

OS YDYCH ANGEN PRINT MAWR, FFONIWCH NI AM DDIM AR 0800 151 0610 NEU E-BOSTIWCH gnestudy@ipsos.com

# FE'CH GWAHODDIR I FOD YN RHAN O GENHEDLAETH OES NEWYDD (GENERATION NEW ERA)

Annwyl Riant,

Rydym yn ysgrifennu atoch i'ch gwahodd i **fod yn rhan o Genhedlaeth Oes Newydd (Generation New Era)** – astudiaeth newydd arloesol o filoedd o fabanod a anwyd yn 2022, a'u teuluoedd. Efallai eich bod yn cofio derbyn llythyr oddi wrthym ychydig fisoedd yn ôl.

Cenhedlaeth Oes Newydd (Generation New Era) yw'r astudiaeth gyntaf o'i bath ledled y DU ers dros 20 mlynedd. Ei nod yw dilyn bywydau'r genhedlaeth un-o-fath hon wrth iddynt dyfu i fyny yn ein byd cyfnewidiol. Trwy ddarparu mewnwelediadau newydd hanfodol i iechyd a datblygiad plant, bydd Cenhedlaeth Oes Newydd (Generation New Era) yn helpu ymchwilwyr, llywodraethau a darparwyr gwasanaethau i wella bywydau plant a theuluoedd yn y DU.

**Mae gan eich teulu gyfle i fod yn rhan o'r ymchwil wyddonol bwysig hon, a fydd o fudd i fywydau teuluoedd a phlant am flynyddoedd lawer i ddod.**

Dewiswyd eich teulu ar hap o gofnodion genedigaethau a gedwir gan GIG Lloegr, sy'n cadw'r cofnodion hyn ar gyfer Cymru, a roddodd eich enw, cyfeiriad a gwybodaeth ychwanegol amdanoch chi a'ch babi.

Rydym wedi amgáu **llyfryn** sy'n ganllaw i chi i'r astudiaeth. Mae'r llyfryn hwn ar gael yn Gymraeg ar wefan yr astudiaeth: rhowch wybod i ni os hoffech i ni anfon copi atoch.

Caiff Cenhedlaeth Oes Newydd (Generation New Era) ei arwain gan y Ganolfan Astudiaethau Hydredol yng Ngholeg Prifysgol Llundain a Phrifysgol Abertawe. Mae Ipsos, sefydliad ymchwil annibynnol, yn casglu'r wybodaeth ar ein rhan. Telir amdano gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol.

## Beth mae cymryd rhan yn ei olygu?

Rydyn ni eisiau clywed gan famau a thadau i helpu i adeiladu darlun llawn o fywyd pob plentyn. Byddwn yn gwahodd un rhiant, fel arfer pwy bynnag sy'n treulio'r rhan fwyaf o amser gyda'r babi, i gwblhau cyfweliad 60 munud yn bersonol gyda'r cyfwelydd. Byddwn yn gofyn i'r rhiant arall gwblhau cyfweliad 30-40 munud ar wahân, y gellir ei wneud yn bersonol neu ar-lein. Mae'r cyfweliad yn cynnwys ateb rhai cwestiynau amdanoch chi'ch hun a'ch babi.



Trowch drosodd →

Hoffem gynnwys mamau neu dadau sy'n byw ar wahân i riant arall eu plentyn, pa bynnag gysylltiad sydd ganddynt â'u babi. Byddwn yn defnyddio gwybodaeth o gofnodion geni, os yw ar gael, i wahodd pob rhiant i gymryd rhan. Os yw'n well gennych i ni beidio â chysylltu ymhellach â rhiant arall eich plentyn neu os oes gennych unrhyw bryderon am hyn, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar ddiwedd y llythyr hwn.

Fel diolch am eich amser, bydd pob rhiant a gyfwelwyd yn derbyn taleb. Gellir cynnal cyfweliadau mewn ieithoedd heblaw Cymraeg neu Saesneg.

Chi sydd i benderfynu os ydych am gymryd rhan. Gobeithiwn y byddwch yn penderfynu bod yn rhan o'r ymchwil pwysig hwn ac y byddwch yn mwynhau'r cyfweliad.

Gobeithiwn eich gwahodd i gymryd rhan bob ychydig flynyddoedd i ddarganfod sut mae eich plentyn yn dod ymlaen wrth iddo fynd yn hŷn. Chi fydd yn penderfynu bob amser os ydych am gymryd rhan.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd cyfwelydd hyfforddedig o Ipsos yn galw yn eich cyfeiriad yn y dyddiau nesaf i ddarganfod a hoffech chi gymryd rhan. Byddant yn fodlon ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych chi. Os ydych chi allan neu os nad yw'n gyfleus, bydd y cyfwelydd yn dod yn ôl ar amser gwell. Os penderfynwch gymryd rhan, bydd y cyfwelydd yn trefnu diwrnod

ac amser ar gyfer y cyfweliad sy'n gweithio orau i chi.

Gan mai dim ond eich enw a'ch cyfeiriad sydd gennym, ni all y cyfwelydd anfon e-bost neu anfon neges destun atoch. Fodd bynnag, gallwch ddod o hyd i rai manylion am eich cyfwelydd ar y cerdyn sydd wedi'i gynnwys gyda'r llythyr hwn.

Bydd y cyfwelydd yn cario cerdyn adnabod gyda'u llun.

Os yw'n well gennych beidio â chymryd rhan, rhowch wybod i ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar ddiwedd y llythyr hwn – byddwn yn rhoi gwybod i'r cyfwelydd ac ni fyddwn yn cysylltu â chi ymhellach.

## Unrhyw gwestiynau?

I ddarganfod mwy am yr astudiaeth, ewch i: gnestudy.info, neu gallwch gysylltu â thîm yr astudiaeth yn Ipsos yn uniongyrchol ar:

- E-bost: gnestudy@ipsos.com
- Rhadffôn: 0800 151 0610
- Rhadbost ASTUDIAETH GNE IPSOS

Diolch am eich help. Gobeithiwn yn fawr iawn y byddwch yn penderfynu cymryd rhan yn yr astudiaeth bwysig hon.

Yn gywir iawn,

**Yr Athro Alissa Goodman CBE**
Cyfarwyddwr yr Astudiaeth, Y Deyrnas Unedig
Coleg Prifysgol Llundain

**Dr Lucy Griffiths**
Cyfarwyddwr yr Astudiaeth, Cymru
Prifysgol Abertawe